Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

DATGANIAD O GYFRIFON CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

PEN-Y-BONT AR OGWR

FFURFLEN FLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO

FFURFLEN FLYNYDDOL HARBWR PORTHCAWL

2021/22

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor lofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon a ffurflenni blynyddol, ac ardystio eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw, ac o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gwblhau hyn erbyn 31 Mai 2022. Cafodd y ffurflenni eu llofnodi a'u hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 6 Gorffennaf 2022 a'r cyfrifon ar 18 Gorffennaf 2022.

Mae Rheoliad 10(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeirir ato uchod, bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon a archwiliwyd. Rhaid cwblhau hyn erbyn 31 Gorffennaf 2022 yn unol â'r Rheoliadau. Oherwydd effaith barhaus COVID-19, nid yw'r archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2021/22 wedi'i gwblhau eto ac ni ddarparwyd barn archwilio. Felly, datganiad o gyfrifon heb eu harchwilio sy'n cael eu cyhoeddi.

Carys Lord
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Raven's Court
Heol y Bragdy
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4AP
Dyddiedig: 26 Gorffennaf 2022